Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD** – CYF. DLI 051

**Amseru:** Arferol
Angen penderfyniad erbyn 31/3/2018 oherwydd mae'r cytundeb yn dod i ben

**Teitl** Estyn cytundeb Llamau

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Comisiynu

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn 2015, rhoddwyd cytundeb i Llamau ar gyfer darparu gwasanaeth i gefnogi pobl ifainc coll, gan gynnwys cyfweliadau ôl-drafod a gwasanaethau cyflafareddu. Daw'r cytundeb gwreiddiol i ben ar 31 Mawrth 2018 ond mae'n cynnwys y dewis i'w estyn am 2 gyfnod arall o 12 mis yr un.

Yn y Bwrdd Comisiynu a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2017, cyflwynwyd papur i'r aelodau bwrdd (mae detholiadau ar gael ar gais) sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cytundeb hwn. Mae data perfformiad yn gadarnhaol, gyda chyfrifiadau effeithlonrwydd cost yn dangos bod y gwasanaeth yn costio uchafswm o £245 fesul ôl-drafodaeth, o'i gymharu â'r gost o £1,300-£2,400 i ymchwilio i un achos o unigolyn coll. Roedd y papur yn dangos enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol ynghyd â chrynodeb o'r mathau o beryglon camfanteisio'n rhywiol ar blant sydd wedi'u nodi a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y gwasanaeth gydag asiantaethau partner.

Roedd y papur hefyd yn tynnu sylw at ganfyddiadau cadarnhaol o thesis a oedd yn canolbwyntio ar adborth a dderbyniwyd gan bobl ifainc a theuluoedd sy'n derbyn y gwasanaeth ac yn cynnwys sylwadau o werthusiad o'r broses ôl-drafodaeth a gynhaliwyd gan fyfyrwyr o Adran Seicoleg Prifysgol Caerdydd.

Yn seiliedig ar y data effeithlonrwydd cost a pherfformiad yn yr adroddiad, argymhellwyd estyn y cytundeb gyda Llamau ar gyfer y cyfnod dewisol o 24 mis. Byddai hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifainc sydd mewn perygl yn cael eu cefnogi'n briodol a'u diogelu o fewn model gwasanaeth cost effeithiol.

**Argymhelliad:**

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo estyn y cytundeb gyda Llamau ar gyfer yr ôl-drafodaeth gyda phobl ifainc coll am y cyfnod 24 mis a amlinellir o fewn y cytundeb gwreiddiol, gan gymryd y dyddiad terfyn newydd i 31 Mawrth 2020.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 27/10/2017